


**Pwyllgor Craffu**

**Adolygu Polisi a Pherfformiad**

# Adroddiad Blynyddol 2017–2018

**Mehefin 2018**

**Cyngor Caerdydd**

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Aelodaeth y Pwyllgor** | **3** |
| **Rhagair y Cadeirydd** | **4** |
| **Trosolwg** | **6** |
| **Cyfrifoldebau'r Pwyllgor** | **6** |
| **Rhaglen Waith 2017/18 – yr ystadegau** | **7** |
| **Uchafbwyntiau 2017/18** | **9** |
| Craffu Partneriaeth | 9 |
| Craffu ar y Cyd | 11 |
| Craffu Datblygu Polisi / Ymgynghori | 13 |
| Craffu cyn penderfyniad | 16 |
| Monitro Gwelliannau | 22 |
| Craffu Byr | 23 |
| Briffio | 24 |
| Ymholiadau Gorchwyl a Gorffen | 27 |
| Galw i mewn | 29 |
| **Cyfleoedd Rhaglennu Gwaith yn y Dyfodol 2018/19** | **31** |
| **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor** | **32** |

## Aelodaeth y Pwyllgor



Y Cynghorydd David Walker
**Cadeirydd**



Y Cynghorydd Rodney Berman



Y Cynghorydd Bernie Bowen Thomson



Y Cynghorydd Joe Boyle



Y Cynghorydd Stephen Cunnah



Y Cynghorydd Owen Jones



Y Cynghorydd Norma Mackie



Y Cynghorydd Rod McKerlch



Y Cynghorydd Jim Murphy

## Rhagair y Cadeirydd

Mae dechrau tymor newydd y Cyngor yn bwysig ar gyfer Craffu. Mae'n gyfle i gynghorwyr newydd a phrofiadol gyfarfod a chydweithio mewn lleoliad amhleidiol a thrawsbleidiol.

Fel rheol, mae nifer fawr o bolisïau a strategaethau newydd i'w harchwilio, ac mae hynny wedi digwydd wrth i'r Pwyllgor gymryd ymlaen ei friff eang. Cafwyd nifer o gyfleoedd i aelodau anweithredol gyfrannu at wneud penderfyniadau a chymryd rhan yn y math o lywodraethu agored a werthfawrogir gan archwilwyr allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Wrth weithredu ein cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn gallu cwrdd a chwestiynu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ynghylch ei Gynllun Llesiant a'i amcanion ar gyfer Caerdydd. Mae hwn yn faes cyfrifoldeb a fydd yn tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r BGC roi trefniadau yn eu lle i gyflenwi'r Cynllun.

Dynoda'r Cynllun Corfforaethol yr hyn y mae'r Weinyddiaeth yn ceisio'i gyflawni, ac ar ba gyflymder. Gwelodd y Pwyllgor gyfle i gynnwys cadeiryddion craffu eraill mewn cyd-graffu a oedd yn ffocysu ar osod targedau ar gyfer y Cynllun. Roedd ymgysylltiad o'r fath yn cynhyrchu mewnbwn gwirioneddol a defnyddiol, ac yn cael ei hwyluso gan barodrwydd yr Arweinydd i ymgymryd â dull mor onest ac agored.

Rôl bwysig i bob pwyllgor craffu yw cyfrannu at ddatblygiad polisi, yn gynnar yn y broses yn ddelfrydol. I ni, roedd hyn yn cynnwys Uchelgais Prifddinas a'i gyflenwad, Trefniadau Uwch Reolwyr, a Strategaeth y Gweithlu. Roedd yr aelodau'n croesawu'r dasg o weithio trwy gynigion a oedd yn aml yn gymhleth, gan gynnig her ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

Hefyd cymerodd y Pwyllgor y cyfle hefyd i ailystyried pwnc sy'n peri pryder, sef Absenoldeb Salwch, lle nodwyd bod y gwelliannau bach ond pwysig a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol wedi dechrau cael eu gwrthdroi. Mae goblygiadau cost ar gyfer materion fel hyn, a chysylltodd ein craffu yn ddefnyddiol gydag archwiliadau ehangach, manwl a wnaethom o'r Strategaeth

Gyllidebol, monitro ym mis 6 2017/18, a chynigion y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19.

Y tu allan i fusnes rheolaidd y pwyllgor, cafwyd cyfleoedd i ymgymryd â dau ymholiad gorchwyl a gorffen, Arweinyddiaeth Cwsmer a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018 a Rheoli'r Ystad dan y Model Landlord Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

Rwyf yn datgan fy ngwerthfawrogiad i bawb a gefnogodd y broses graffu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys aelodau'r cabinet, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion yn ogystal â gwesteion o sefydliadau allanol. Gwerthfawrogir ymdrechion Aelodau'r Pwyllgor yn fawr, gan gynnwys y rôl a gyflawnwyd gan y Cynghorydd Joe Boyle wrth gadeirio ymholiad gorchwyl a gorffen y Model Landlord Corfforaethol.

Arweiniodd y Prif Swyddog Craffu, Nicola Newton, y Pwyllgor yn ddi-fwlch trwy ei faich gwaith eang ac weithiau cymhleth, ac mae'r Pwyllgor yn mynegi ei werthfawrogiad.

Gwn y bydd y Pwyllgor yn ymdrin â gwaith pwysig pellach yn 2018/19 ac, wrth wneud hynny, yn ceisio cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y Cyngor wrth iddo ddarparu ar gyfer ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.





**Y Cynghorydd David Walker**

**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad**

## Trosolwg

Gyda Gweinyddiaeth 2017 yn gadarn yn ei lle, a genedigaeth Uchelgais Prifddinas ym mis Gorffennaf 2017, croesawodd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad Aelodau newydd a phrofiadol, i geisio her agored a thryloyw, er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau i ddinasyddion Caerdydd. Am flynyddoedd lawer bu swyddogaetha diwylliant craffu cadarnhaol Caerdydd yn rhan effeithiol o broses benderfynu democrataidd y Cyngor. Mae'r swyddogaeth yn sicrhau bod Aelodau anweithredol yn cael cyfle i ddod â'u harbenigedd annibynnol eu hunain ar faterion strategaeth a pholisi gyda hwy, gan weithio gyda'r Cabinet i wella gwasanaethau. Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym yn myfyrio ar y craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf, a rhai o'r datblygiadau newydd sydd wedi tyfu allan o barodrwydd y Cabinet a Chraffu i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n gostwng fwyfwy.

Er eglurder, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor ers ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2017, hyd at ddiwedd y flwyddyn ddinesig ym mis Mai 2018. Mae'n esbonio'r nifer o wahanol fathau o graffu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn, yn categoreiddio'r gwahanol bynciau a ystyriwyd, ac yn cyflwyno uchafbwyntiau a chanlyniadau ei waith yn 2017/18, o dudalen 8 ymlaen.

## Cyfrifoldebau’r Pwyllgor

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn gosod arno ddwy swyddogaeth graffu ar wahân.Yn gyntaf, cyfrifoldeb cyffredinol i graffu, monitro ac adolygu perfformiad corfforaethol cyffredinol a gwelliant y Cyngor. Yn ail, i graffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd swyddogaethau penodol, megis y fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Gwella, y Rhaglen Cyflenwi Uchelgais Prifddinas, Cyllid, TGCh, Adnoddau Dynol,

Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol, Eiddo, Caffael, Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn weinyddol hon, bu adolygiad o'r trefniadau rheoli uwch. Golyga hyn bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn y strwythur sefydliadol newydd[1] yn pennu bod ei gyfrifoldebau yn dod o fewn tair o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor; fel a ganlyn

Mae **Cyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol** yn dod dan gyfrifoldeb y Pwyllgor yn gyfan gwbl, ac mae'n cynnwys; *Comisiynu a Chaffael*; *Cyllid; Adnoddau Dynol; Digideiddio a Gwasanaethau Cwsmer (yn cynnwys* Cwynion Corfforaethol a Chysylltu â Chaerdydd (C2C)*; Perfformiad a Phartneriaethau (yn cynnwys Caerdydd Ddwyieithog).*

Mae **Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd** yn cynnwys y *Landlord Corfforaethol*, *Ystadau Strategaethol* (yn cynnwys portffolio *gweithredol* ac anweithredol), *Rheoli Cyfleusterau* a *Pholisi Rhyngwladol*.

Mae'r **Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol** o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor yn gyfan gwbl ac mae'r cynnwys; *Gwasanaethau Pwyllgor ac Aelodau; Gwasanaethau Etholiadol; Tîm Cydraddoldeb; Archifau Morgannwg; Gwasanaethau Cyfreithiol; a Gwasanaethau Craffu.*

## Rhaglen Waith 2017/18 - yr ystadegau

Yn ystod y flwyddyn ddinesig Mai 2017 - Mai 2018, cynhaliodd y Pwyllgor 9 o gyfarfodydd cyhoeddus fel y'u rhaglennwyd yng nghalendr cyfarfodydd y Cyngor, ac un cyfarfod galw heibio heb ei raglennu ym mis Ebrill 2018. Dros y flwyddyn, archwilwyd 25 adroddiad gan y Pwyllgor llawn, yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau. Arweiniodd y gweithgaredd hwn at lunio 19

[1] Gellir canfod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn ar dudalen 31.

llythyr i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli, gan rannu sylwadau, pryderon ac argymhellion y Pwyllgor yn dilyn y craffu. Mewn ymateb, derbyniodd y Pwyllgor 12 lythyr oddi wrth y Cabinet.

Bu’r Pwyllgor yn ffodus i gael Aelodaeth lawn trwy gydol y flwyddyn, a phresenoldeb ardderchog. Mae bob un o’r naw sedd wedi eu llenwi, gyda dim ond un newid, pan groesawodd y Pwyllgor y Cynghorydd Owen Jones ym mis Chwefror 2018 yn lle'r Cynghorydd Frank Jacobsen. Ar ddechrau'r flwyddyn, gwirfoddolodd pob un o'r 9 Aelod i gymryd rhan mewn ymholiadau gorchwyl a gorffen, gan alluogi'r Pwyllgor i gyflwyno 2 adroddiad ymholiad i'r Cabinet ar bynciau pwysig; yn gyntaf, *Rheoli'r Ystad dan y Model Landlord Corfforaethol*, ac yn ail, *Arweinyddiaeth Cwsmer*. Roedd yr allbwn hwn angen presenoldeb yr Aelodau mewn 11 cyfarfod casglu tystiolaeth anffurfiol ychwanegol.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Panel Perfformiad, y gwirfoddolodd 6 Aelod ar ei gyfer, a gyfarfu ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Felly, roedd cyfanswm cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu hwn yr oedd ei Aelodau wedi ymrwymo iddynt ym 2017/18 yn 23.

Mae llwyddiant Craffu yn dibynnu ar gapasiti, sgiliau a datblygiad yr Aelodau hynny sy'n eistedd ar Bwyllgorau Craffu. Ar ddechrau'r Weinyddiaeth, trefnodd y tîm craffu raglen o ddigwyddiadau hyfforddi i alluogi aelodau newydd i gael trosolwg a dealltwriaeth o'u rolau, eu gweithgareddau a'u prosesau craffu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Graffu (*Mehefin’17)*
- Sgiliau Cwestiynu (*Gorff’17)*
- Hyfforddiant Cyllideb *(Chwef’18)*

Cafodd trafodion y Pwyllgor eu gwe-ddarlledu ddwywaith, ym mis Tachwedd 2017 a Chwefror 2018, a welwyd gan gyfanswm o 135 o bartïon â diddordeb. Edrycha'r Pwyllgor ymlaen at barhau a gwella ymgysylltiad mor dryloyw, ac i

chwarae ei ran wrth gyfrannu at ddangosydd perfformiad gwe-ddarlledu'r Cyngor.Yn yr un modd, mae'r swyddogaeth Graffu wedi datblygu a gweithredwyd dangosydd perfformiad "*Nifer y cyfranwyr allanol mewn cyfarfodydd Craffu* " i dynnu sylw at ehangder a dyfnder y dystiolaeth sy'n hysbysu gwaith craffu. Ar 31 Mawrth 2018, derbyniodd y Pwyllgor Craffu dystiolaeth yn uniongyrchol gan dros 250 o dystion allanol.

Er mwyn cefnogi ei waith, mae'r Pwyllgor yn elwa o un swyddog craffu amser llawn, a chyfran o'r swyddi ymchwilydd craffu a swyddogion cymorth craffu. Bu goruchwyliaeth lefel uchel o'i waith drwy'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, yn absenoldeb Rheolwr Gweithredol.

Defnyddiodd y Pwyllgor amrywiaeth o ddulliau i archwilio'r pynciau a archwiliwyd. Rhestrir yr holl bynciau isod, wedi'u dadansoddi dan y math o graffu perthnasol, ac amlygwyd detholiad oherwydd eu heffaith.

# Uchafbwyntiau 2017/18

## Craffu Partneriaeth

***Lle mae'r Pwyllgor wedi perfformio'r rôl statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a roddwyd iddo gan y Cyngor. Yn 2017/18 roedd hyn yn cynnwys:***

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – adroddiad cynnydd ac amcanion llesiant drafft *(Gorff'17)*
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Cynllun Llesiant. *(Tach'17)*

### Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LlCD). Ceisia'r Ddeddf sicrhau bod y trefniadau llywodraethu mewn cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant

Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Y nod yw i gyrff cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy manwl a'r nodau llesiant a ragnodir gan y Ddeddf.

Sefydlodd y Ddeddf LlCD Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Y mae'r aelodau craidd yn cynnwys yr Awdurdod Lleol; y Bwrdd Iechyd Lleol; Awdurdod Tân ac Achub Cymru; a Chyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, rhoddodd gylch gorchwyl statudol ar gyfer Craffu:

- Adolygu penderfyniadau a wneir neu gamau a gymerir gan y BGC;
- Adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Gwneud adroddiadau i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaeth neu drefniadau llywodraethu; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r BGC fynychu'r Pwyllgor.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi'r cyfrifoldeb statudol dros gynnal gofynion y Ddeddf ar y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Perfformiad i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC). Felly mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal craffu trosolwg strategol ar berfformiad y BGC wrth symud ymlaen.

Ym mis Gorffennaf 2017, derbyniodd y Pwyllgor newydd adroddiad cynnydd ac amlinelliad o amcanion Llesiant drafft y BGC.  Canmolodd yr aelodau hanes hirsefydlog Caerdydd o weithio mewn partneriaeth anstatudol, sy'n parhau i fod yn sail ardderchog ar gyfer datblygu gofynion statudol Deddf LlCD, a chroesawodd y cynnig i'r Cadeirydd fynychu'r BGC o bryd i'w gilydd i sefydlu llinellau cryf o atebolrwydd agored, sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Wrth i'r Cynllun Llesiant ddwyn ffrwyth, roedd y Pwyllgor wrth ei fodd ym mis Tachwedd 2017 o groesawu cynrychiolaeth eang o bartneriaid BGC Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru,

Gwasanaeth Tân De Cymru, Heddlu De Cymru a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd. Yn dilyn y craffu, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Arweinydd, fel Cadeirydd y BGC, yn pwysleisio pwysigrwydd cydberthynas gref rhwng Cynllun Llesiant Caerdydd a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer Cyflenwi Uchelgais Prifddinas, a bod cynlluniau corfforaethol bob partner yn cyd-fynd ac yn dangos cysylltiadau clir â'r Cynllun Llesiant. Teimlai'r Aelodau ei bod yn hanfodol bod y Cynllun yn cynnwys targedau clir, bod corff partner yn gwario'm gymesur ar gefnogi trefniadau partneriaeth, ac yn hanfodol, y dylai pawb gael cyfle cyfartal i elwa o lwyddiant Caerdydd.

Yn dilyn hynny, lansiwyd y Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018, ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar drefniadau llywodraethu'r BGC ym mis Mehefin 2018.

## Craffu ar y Cyd

***Lle mae'r Pwyllgor wedi ymuno ag un neu fwy o bwyllgorau craffu i archwilio pwnc o natur drawsbynciol i alluogi ystyriaeth gyfunol o'r materion. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys:***

- Craffu ar y cyd ar osod targedau'r Cynllun Corfforaethol 2018-21 *(Chwef'18)*

Eleni, cafwyd craffu ar y cyd am y tro cyntaf ar osod targedau'r Cynllun Corfforaethol, a gynhaliwyd gan Banel Perfformiad y Pwyllgor. Gwahoddwyd yr holl Gadeiryddion Craffu i gymryd rhan a chefnogodd sesiwn ymgysylltu anffurfiol werthfawr graffu effeithiol o'r broses Cynllunio Corfforaethol. Ystyriodd y sesiwn dargedau arfaethedig yn fanwl, gan roi cyfle i fwydo sylwadau ar draws y pwyllgorau craffu yng Nghynllun Corfforaethol drafft terfynol Caerdydd 2018-21, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ffurfiol.

Mater allweddol a godwyd gan y panel ar y cyd oedd nad yw targedau a chyllidebau weithiau'n cael eu cyflawni a bod yr Aelodau'n annog y dylai targedau a osodir fod yn ymestynnol ond yn gyraeddadwy, er mwyn osgoi gorwariant rhagamcanedig mor gynnar â Chwarter 1 2017/18. Roedd y panel craffu ar y cyd o'r farn bod cyfle i sicrhau bod dyheadau arbedion cyllideb yn cael eu hadlewyrchu'n gadarn yn y targedau perfformiad a nodir yn y Cynllun Corfforaethol. Nododd yr Aelodau mai'r Cynllun Corfforaethol yw'r hyn y mae'r sefydliad am ei gyflawni, fodd bynnag gall fethu os yw'r sefydliad yn ystyried rheoli perfformiad ar wahân i reolaeth y gyllideb. Teimlai'r Aelodau y dylai fod yn bosib fframio targedau ariannol fel rhan annatod o'r Cynllun Corfforaethol, ac anogodd y Cabinet i ystyried hyn. Hefyd, dylent ddeall wrth ddarllen y Cynllun, pa DPAau sy’n rhoi arwydd o bwysau go iawn ar y gyllideb.

Roedd meysydd eraill a amlygwyd yn cynnwys yr angen am fwy o uchelgais wrth osod targed o 94.5% ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd; er mwyn cynyddu'r nifer o ymwelwyr i Gaerdydd, awgrymwyd bod angen mwy na 2% o gynnydd yn y nifer o ymwelwyr sy'n aros; a phryder am y lefelau o absenoldeb salwch a'r gost i'r Cyngor, yn enwedig mewn meysydd megis rheoli gwastraff.

Mewn ymateb, roedd yr Arweinydd o'r farn bod y Cynllun Corfforaethol wedi'i gryfhau ymhellach o ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn; ac roedd yn cytuno'n llwyr â barn y Panel bod targedau ariannol yn rhan annatod o'r broses Gynllunio Corfforaethol a Gosod Cyllideb, gan gadarnhau, yn yr un ffordd ag y mae’r Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb yn cael eu datblygu ar y cyd, y bydd cyflawni targedau arbedion ac adroddiadau perfformiad yn cael eu monitro a'u hadrodd ar yr un pryd. Gan symud ymlaen, byddai cyflawniad arbedion yn cael ei adrodd bob chwarter fel rhan o'r Adroddiad Monitro Cyllideb cyhoeddedig. Yn yr un modd, bydd yr Adroddiadau Perfformiad yn parhau i gael eu cyflwyno bob chwarter. Gyda'i gilydd, byddant yn darparu diweddariad rheolaidd ar gyflawniadau yn erbyn targedau cyllideb, amcanion polisi a mesurau perfformiad.

## Craffu Datblygu Polisi / Ymgynghori

***Lle mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor trwy ystyried dogfennau polisi drafft. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys;***

- Uchelgais Prifddinas – blaenoriaethau polisi *(Gorff'17)*
- Trefniadau Uwch Reolwyr *(Hyd'17)*
- Cyflenwi Uchelgais Prifddinas *(Tach'17)*
- Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog *(Mai'18)*
- Strategaeth y Gweithlu *(Mai'18)*

**Uchelgais Prifddinas – blaenoriaethau polisi'r Weinyddiaeth**

Briffiwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor newydd ar raglen bolisi'r Weinyddiaeth ac ymrwymiadau cyflawni cysylltiedig o'r enw 'Uchelgais Prifddinas'. Clywodd y Pwyllgor sut y byddai'r uchelgeisiau hyn yn cael eu trosi i bolisi strategol y Cyngor, datblygu sefydliadol a'r fframwaith cyllidebol.

Mae'r datganiad polisi 'Uchelgais Prifddinas' yn pennu rhaglen o weithredu i barhau i yrru economi'r ddinas ymlaen tra'n sicrhau y bydd yr holl drigolion yn teimlo budd o'r llwyddiant. Wrth gyflenwi'r Uchelgais Priddinas, mae ffocws y Weinyddiaeth ar bedwar prif faes: Gweithio dros Gaerdydd; Gweithio dros Gymru; Gweithio dros y Dyfodol; Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus.

Rhoddodd y sesiwn briffio hon gyflwyniad hanfodol, a gosododd y cyd-destun i'r Aelodau ddeall fframwaith strategol y Cyngor a gwaith y Pwyllgor ym mlwyddyn un. Byddai'r polisi polisi a chyflenwi adnewyddedig yn cynnwys y cydrannau allweddol canlynol: **Cynllun Corfforaethol** 2018-19 yn nodi amcanion y Cyngor; **Strategaeth y Gyllideb** wedi'i hailwampio i gefnogi cyflwyno blaenoriaethau'r weinyddiaeth; **Rhaglen o Newid** yn nodi sut y bydd rhaglen ddatblygu 3-blynedd newydd y Cyngor yn cael ei hail-lunio i gyflawni'r ymrwymiadau a gynhwysir yn y ddogfen 'Uchelgais Prifddinas'; Y **Cynllun**

**Llesiant** i'w lansio gan y BGC ym mis Ebrill 2018; Y **Fframwaith Rheoli Perfformiad,** yn trosi'r ddogfen 'Uchelgais Prifddinas' i amcanion perfformiad a cherrig milltir clir; a rhaglen o **Ymgynghori ac Ymgysylltu** i gefnogi gweithredu uchelgeisiau polisi'r weinyddiaeth.

**Trefniadau Uwch Reolwyr**

Ym mis Hydref 2017, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar gynigion yn dilyn dadansoddiad llawn ac adolygiad o drefniadau rheoli uwch gan y Prif Weithredwr. Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i ychwanegu llais craffu i'r broses ymgynghori, gan groesawu niwtraliaeth cost y cynigion, a swyddi newydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a'r Prif Swyddog Digidol.

Teimlai'r Pwyllgor fod lle i ymchwil farchnata bellach i sicrhau bod ymgeiswyr o ansawdd da yn cael eu denu i Gaerdydd. Roedd yn pryderu nad oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn eistedd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol dan y trefniadau newydd arfaethedig, ac yn tynnu sylw at y perygl o ganfyddiad y cyhoedd bod y Cyngor yn gwario gormod ar gyflogau uwch.

**Cyflenwi Uchelgais Prifddinas**

Ym mis Rhagfyr 2017, cofnododd y Pwyllgor ei werthfawrogiad o ddull cynhwysol y Cabinet o ymgysylltu craffu â chynlluniau strategol pwysig y Cyngor tra'u bod ar y cyfnod datblygu. Atgyfnerthodd y Pwyllgor bwysigrwydd aliniad cryf rhwng yr holl ddogfennau cynllunio sy'n ffurfio’r fframwaith perfformiad, ac y byddai'r Pwyllgor yn edrych am gysylltiadau cryf rhwng y Cynllun Llesiant, y rhaglen Uchelgais Prifddinas bedair blynedd a'r Cynllun Corfforaethol. Yn arwyddocaol, roedd Aelodau'n annog y dylai Uchelgais Prifddinas weithio i'r Ddinas gyfan, rhoi cymunedau mewn safle blaenllaw, a chanolbwyntio ar anghydraddoldebau, yn enwedig iechyd a chyfle.

Pwysleisiodd yr Aelodau pa mor bwysig oedd bod y diwylliant sefydliadol yn cofleidio digideiddio, gan ailadrodd bod cysondeb y gwasanaeth i gwsmeriaid

ar draws y sefydliad yn allweddol, fel y mae torri i lawr silos cyfarwyddiaethau i ddarparu gwasanaeth cyngor di-dor.

Mewn ymateb, ymrwymodd yr Arweinydd i barhau i ymgysylltu'n gynnar, a chydweithiodd i gyflwyno sesiwn yn canolbwyntio ar osod targedau gyda Phanel Perfformiad newydd y Pwyllgor yn cynnwys holl Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu, gan ei ystyried yn gyfle pwysig i amlinellu a chodi ymwybyddiaeth o'r broses gosod targedau.

**Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog**

Ym mis Mai 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnydd ar fodel newydd arfaethedig i gyflenwi Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog. Yn dilyn craffu, dywedodd y Pwyllgor wrth yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu eu bod yn cytuno â gwerth archwilio ymgysylltiad â phartner masnachol allanol i wella effeithlonrwydd a lleihau costau, er gwaethaf bod partneriaeth o'r fath yn dod â risgiau newydd i'r Cyngor. Anogodd yr Aelodau fod cynigion ar gyfer dull o'r fath yn cynnwys arwydd clir o sut y caiff llwyddiant ei fesur. Cyngor y Pwyllgor oedd lleihau'r risg, a rhannu unrhyw elw.

Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig y dylai cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw cerbydau fod o fewn meysydd gwasanaeth, gan y bydd hyn yn rhoi mwy o atebolrwydd, a phwysleisio pwysigrwydd y cyllidebau hynny sy'n ffactora i mewn gostau gorbenion megis dibrisiant a chost amnewid ar ddiwedd oes cerbyd.

Yn bwysig, ystyriodd y Pwyllgor fod cyfle i gynllunio a thargedu marchnata mwy effeithiol i wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau.

**Strategaeth y Gweithlu**

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor graffu ar ddatblygu polisi ar Strategaeth y Gweithlu ym mis Mai 2018. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y dull cyfannol yn anelu at gryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllunio busnes, ariannol a gweithlu, gyda'r canlyniad bwriadedig o wella perfformiad a thrwy hynny

wasanaeth cwsmeriaid. Yn dilyn craffu, cyfeiriodd y Pwyllgor yr Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad ac uwch swyddogion at argymhellion ei ymholiad gorchwyl a gorffen Arweinyddiaeth Cwsmer. Teimlai'r Aelodau y dylid cael mwy o eglurder ynghylch y materion y byddai angen i'r strategaeth fynd i'r afael â hwy, megis unrhyw fylchau gweledol ar draws y sefydliad lle mae'n anodd recriwtio a chadw staff. Roedd yr Aelodau'n bryderus y byddai angen adnoddau sylweddol i ddadansoddi data'r maes gwasanaeth er mwyn datblygu'r strategaeth.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd adeiladu gweithlu ffyddlon a denu talent, ac fel y cyfryw awgrymwyd: y dylid defnyddio asedau fel y Castell a Neuadd Dewi Sant yn fuddiol i ddenu a chadw staff; hyrwyddo gweithio ystwyth; cefnogaeth i aelodaeth o rwydwaith Stonewall Cymru, a rhwydweithiau gweithwyr eraill (BME, Gofalwyr, Anabledd, LGBT, Rhwydwaith Menywod).

Hefyd sefydlodd y Pwyllgor bwysigrwydd y cynlluniau gweithredu a fydd yn eistedd o dan y Strategaeth Gweithlu a gofynnwyd am weld y ddau. Penderfynwyd monitro'r hyn a gyflawnir chwe mis ar ôl ei weithredu.

## Craffu cyn-penderfyniad

***Lle mae'r Pwyllgor wedi gwerthuso a chyflwyno sylwadau ar gynigion polisi cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet, gan roi dealltwriaeth i'r Cabinet o farn Aelodau Craffu cyn gwneud eu penderfyniad. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys;***

- Polisi Iechyd Meddwl *(Medi ’17)*
- Polisi Caffael Cymdeithasol Cyfrifol *(Medi’17)*
- Cyflenwi Uchelgais Prifddinas *(Rhag ’17)*
- Cynllun Corfforaethol Drafft 2018-21 *(Ion ’18)*
- Cynigion Cyllideb Drafft 2018-19 *(Chwef ’18)*

**Polisi Iechyd Meddwl**

Ym Medi 2017, croesawodd y Pwyllgor fenter a ffocws y Cyngor ar Iechyd Meddwl wrth ddatblygu Polisi Iechyd Meddwl newydd. O ystyried bod 21% o holl absenoldeb salwch y Cyngor yn gysylltiedig â straen neu iechyd meddwl, barn gyffredinol y Pwyllgor oedd bod rhaid i reolwr feddu ar y sgiliau i nodi'r cysylltiadau rhwng straen ac iechyd meddwl, dal problemau yn gynnar, a defnyddio ymyriadau i gynnal cydbwysedd rhwng absenoldeb salwch a chynhyrchiant. Yn ogystal, roedd angen dull cyson o gyflwyno'r polisi Iechyd Meddwl ar draws pob Cyfarwyddiaeth, ac felly dylai pob rheolwr ddilyn modiwl hyfforddi gorfodol ar Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Mewn ymateb, sicrhaodd yr Aelod Cabinet y Pwyllgor bod ei argymhellion wedi hysbysu newidiadau i'r polisi terfynol. Yn benodol, roedd nodau'r polisi bellach yn adlewyrchu rheolaeth ragweithiol o iechyd a llesiant trwy gynnwys y llinellau canlynol:

- Hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle trwy ystyried ffynonellau pwysau ac achosion trallod meddwl yn y gwaith, nid ymdrin â'r symptomau yn unig.
- Sicrhau bod pwysau'r man gwaith yn cael ei reoli trwy broses asesu risg yn unol â Pholisi Rheoli Straen y Cyngor.

Arweiniodd sylwadau'r pwyllgor at ystod o ychwanegiadau i'r polisi gan gynnwys disgrifiad o gyfrifoldebau Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor; yr hyfforddiant sydd ar gael trwy Academi Caerdydd; cysylltiad penodol â'r Sefydliad Iechyd Meddwl; ymrwymiad i archwilio datblygu modiwl hyfforddiant gorfodol ar Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i reolwyr trwy Academi Cymru Gyfan; archwilio cyflwyniad therapïau i gefnogi gweithwyr, er enghraifft, sesiynau tylino Therapi Chwaraeon; gweithio'n agos â thîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor i adolygu'r Polisi Rheoli Straen, ac yn arbennig i ystyried cyngor ac arweiniad a gyhoeddwyd gan yr HSE ers i'r polisi hwn gael ei gyflwyno.

Bydd y Pwyllgor yn rhaglennu craffu manwl o'r rhaglen Iechyd a Llesiant Gweithwyr, yn enwedig sut y bu'r rhaglen iechyd galwedigaethol yn perfformio i'r Cyngor yn 2018.

**Polisi Caffael Cymdeithasol Cyfrifol**

Ym mis Medi 2017, croesawodd y Pwyllgor y dull cymdeithasol gyfrifol o ymdrin â chaffael, yn enwedig y newyddion bod 55% o wariant y Cyngor o £390 miliwn gyda chyflenwyr lleol, a bod 4,000 o'i 9,000 o gyflenwyr yn gwmnïau gwerth bach. Dywedodd yr aelodau wrth y Cabinet eu bod yn ei ystyried yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i gyfeirio cwmnïau llai i wneud cais am gymorth, lle na all gynnig cefnogaeth ei hun, a dylai fod tystiolaeth bod penderfyniadau caffael wedi eu gwneud ar sail foesegol yn hytrach na phrisiau.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad fod 56% o gyflenwyr y Cyngor yn fusnesau bach a chanolig. Parha *Canllawiau Gwerthu i'r Cyngor* i gael eu hyrwyddo, sy'n ceisio helpu darpar gyflenwyr a chontractwyr i ddeall sut mae Cyngor Caerdydd yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Tîm Comisiynu a Chaffael yn gweithio gyda Chyngor y Trydydd Sector yng Nghaerdydd i edrych ar y ffordd orau o gefnogi'r Trydydd Sector i ddatblygu eu sgiliau caffael cyffredinol, gan gynnwys cefnogi rhaglen hyfforddi a nodi rhestr o gynlluniau budd cymunedol posibl sydd angen cefnogaeth contractwr. Y nod yn y pen draw yw i'r Cyngor allu cyfeirio contractwyr i restr o gynlluniau budd cymunedol posibl sydd angen eu cefnogaeth er mwyn darparu buddion ledled Caerdydd.

Eglurodd y Cabinet y dyfernir tendrau ar gyfuniad o bris ac ansawdd, ac mae'n fwy tebygol y bydd ystyriaethau cyflogaeth moesegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cam dethol cychwynnol sy'n penderfynu a yw cyflenwyr/ contractwyr yn gallu ac yn addas i gyflawni gofynion y contract i'r Cyngor.

**Cynllun Corfforaethol Drafft 2018-19**

Yn dilyn ei ymgysylltiad datblygu polisi â Chyflenwi Uchelgais Prifddinas a Chynllun Corfforaethol 2018-19 ym mis Rhagfyr 2017, cafodd y Pwyllgor gyfle ym mis Ionawr 2018 i graffu cyn-penderfynu ar ddechrau'r broses o ystyried Cynllun Corfforaethol 2018-19. Cydnabu'r Pwyllgor fod y gyfres o gyfleoedd a roddwyd i Graffu yn gam sylweddol ymlaen o ran hwyluso'r effaith graffu ar brosesau cynllunio strategol y Cyngor. Cydnabu'r Aelodau yn benodol fod y Weinyddiaeth wedi ceisio ymgorffori'r Rhaglen Gyflenwi Uchelgais Prifddinas o fewn y Cynllun, ac wedi ceisio aliniad â Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwnaeth y Pwyllgor lawer o gyfeiriadau penodol at linellau o fewn y Cynllun, yn enwedig amlygu ei deimlad nad oedd y Cynllun yn llawn werthfawrogi beth yw'r rôl a chwaraeir gan Datblygu Economaidd i gyflawni'r amcan o '*Brifddinas sy'n gweithio dros Gymru'.* Roeddent hefyd o'r farn bod y mesurau perfformiad (DPAau) ar gyfer yr amcan hwn yn amlwg yn ysgafn.

Ceir tystiolaeth o effaith y Pwyllgor yn y newidiadau canlyniadol a wnaed i'r Cynllun yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor. Mae'r Cynllun drafft:

- Yn cynnwys mesurau ar dwf cyflogaeth.
- Yn ychwanegu amcan i gydnabod rôl y Fargen Ddinesig mewn cefnogi Datblygu Economaidd ar draws y Ddinas a'r rhanbarth ehangach.
- Yn cynnwys rheoli asedau ac eiddo o dan yr amcan llesiant 'Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus'.
- Yn cynnwys dangosydd perfformiad allweddol gwrthrychol a chyfatebol, sy'n canolbwyntio ar atal pobl ifanc rhag aildroseddu.
- Yn ychwanegu mesur perfformiad sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae pobl yn credu eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn dilyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.
- Yn cydnabod yr angen dyluniad trefol o ansawdd uchel; bydd y Cyngor yn cynnull Adolygiadau Dylunio rheolaidd o'r cynigion a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd yn gwneud argymhellion yn seiliedig

ar farn y panel amlddisgyblaeth. Ar ben hynny, cyhoeddir dogfen Monitro Adolygu Dylunio flynyddol, sy'n cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o argymhellion a wnaed.

- Yn datblygu ymhellach yr amcan sy'n ymwneud â’r strategaeth fwyd, i egluro beth fydd y strategaeth yn ceisio'i gyflawni.

Canmolodd y Pwyllgor ymatebolrwydd digynsail y Cabinet i'r pryderon a sylwadau'r Pwyllgor a’r Panel Perfformiad, gan groesawu'n fawr y cam ymlaen wrth gyd-gynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd pellach o gysylltiad cryf rhwng amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a'r Cynllun Corfforaethol, o ran agweddau iechyd o’r ddeddfwriaeth, gan ystyried bod cyfle i gryfhau ymrwymiad y Cyngor i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd.

Sicrhaodd yr Arweinydd y Pwyllgor bod cysylltiad cryf a bod yr holl amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o gyfraniad yr awdurdod i'r nodau. O ran ymrwymiad y Cyngor i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yn y ddinas trwy weithio gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, nododd fod pob un o'r saith nod llesiant yn y Cynllun Corfforaethol yn cyfrannu tuag at nod llesiant cenedlaethol 'Cymru iachach'. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cydnabod bod tlodi yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at iechyd gwael ac, felly, mae'r nod 'Cefnogi Pobl Allan o Dlodi' yn ei gyfanrwydd yn cyfrannu tuag at y nod hwn. Yn yr un modd, mae 'Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus' yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn ymateb i argymhellion Adolygiad Seneddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac yn cynnwys mesurau perfformiad ynghylch nifer yr unigolion sy'n cyfranogi mewn parciau/chwaraeon awyr agored. Yn ogystal, mae 'Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn' yn cynnwys y ddau gam a mesur perfformiad o ran gwella ansawdd yr aer a chynyddu teithio egnïol yng Nghaerdydd.

.

**Cynigion Cyllideb drafft 2018-19**

Ym mis Chwefror 2018, ymarferodd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl deuol o graffu ar y Cynigion Cyllideb trosfwaol 2018-19, a chynigion cyllideb penodol

tair chyfarwyddiaeth. O ran cyllideb *gyfan y Cyngor,* tynnodd y Pwyllgor sylw at nifer o bryderon. Yn gyntaf, roedd Treth y Cyngor yn cynyddu 5% er bod y setliad ariannol wedi bod yn well na'r disgwyl – y dyfarniad tâl cyflogwyr o 2% oedd y prif reswm a roddwyd am hyn. Roedd pryderon eraill yn cynnwys y risg o ddyled yn effeithio ar gyllideb gyffredinol y Cyngor; £8.4m yn ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddileu arbediad blaenorol; bod y broses o gynhyrchu incwm yn thema ailadroddus ar draws cynigion arbedion cyllideb Cyfarwyddiaethau; a pha mor gyraeddadwy oedd y cynnig i leihau dibyniaeth ar wariant asiantaeth ar draws y tîm ailgylchu a gwasanaethau gwastraff, trwy wella presenoldeb yn y gwaith.

Mewn perthynas â chynigion y *Gyfadran Adnoddau,* gwelodd y Pwyllgor ddiwylliant gwahanol, gan nodi archwaeth y Gyfadran i wthio ffiniau, sy'n weladwy mewn gwasanaethau megis caffael. Anogodd yr Aelodau na ddylai unrhyw arbedion arfaethedig atal cynnydd digidol. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw e-bilio yn eithrio'r rhai nad oes ganddynt adnoddau technoleg.

O ran y cynigion *Datblygu Economaidd,* croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad cynhwysfawr o ystad y Cyngor; roedd yn pryderu am gael gwared â chymhorthdal y Pwll Rhyngwladol, a'r effaith ar daliadau, staffio a gwasanaethau; roedd o'r farn bod y Model Landlord Corfforaethol yn cynnig y posibilrwydd o sefydlu'r rheolaethau angenrheidiol ar gyfer rheoli'r ystad yn llwyddiannus.

O ran cynigion *Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol,* nododd y Pwyllgor y gostyngiad o ddwy swydd o'r swyddogaeth graffu a'r canlyniad y bydd lleihad yn y capasiti i gynorthwyo aelodau wrth ymgymryd ag ymholiadau grŵp gorchwyl.

Mewn ymateb, atgoffodd yr Aelod Cabinet y Pwyllgor mai'r gwahaniaeth rhwng dyfarniad tâl o 1% a 2% yw £2.8 miliwn; tynnodd sylw at ddatganiad Adroddiad y Gyllideb sy'n nodi, tra'n cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf am y

cyfnod hyd at 2022/23, y bydd blynyddoedd diweddarach y rhaglen yn destun adolygiad parhaus o wydnwch ariannol y Cyngor; yn cydnabod bod yr arbedion a gynigir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn uchelgeisiol ond mae'n bwysig yn yr amserau heriol hyn bod cyfarwyddiaethau'n edrych ar bob cyfle i wneud arbedion a’u bod yn gosod targedau ymestynnol iddynt eu hunain o ran eu cyflawniad.

## Monitro gwelliannau

***Lle mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â monitro cynnydd gwella'r Cyngor. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys:***

- Adroddiad Gwella Statudol Caerdydd 2016-17 *(Hyd ’17)*
- Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2016-17*(Hyd’17)*

**Adroddiad Gwella Statudol Caerdydd 2016-17**

Ym mis Hydref 2017, bu’r Pwyllgor yn monitro hunanasesiad y Cyngor o'i welliant ar ffurf Adroddiad Gwella Statudol 2016-17, gan ofyn am rôl yn y dyfodol o ran cyfrannu at gynllunio a phrosesau gwella o ran gosod targedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol sydd ar y gweill.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad y byddai'r Tîm Perfformiad Corfforaethol yn hapus i weithio gyda Phanel Perfformiad y Pwyllgor i ddarparu ffordd gynhyrchiol o ddatblygu ymhellach ymwneud y Pwyllgor â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a'r agenda.

**Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2016-17**

Wrth barhau â'r thema wella, croesawodd y Pwyllgor Swyddfa Archwilio Cymru, gan hyrwyddo cysylltiadau cryf rhwng Craffu mewnol ac Archwilwyr allanol fel ffordd o sicrhau bod ffocws ei waith yn ystod y flwyddyn yn briodol.

Roedd y Pwyllgor eisoes wedi mynegi rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch maint y data y mae'n ei dderbyn i asesu sut mae'r Cyngor yn symud ymlaen

ar ei siwrnai welliant, ac yn y dyfodol gofynnodd am grynodeb a meincnodi syml p’un a yw'r Cyngor yn perfformio'n dda neu fel arall. Byddai aelodau hefyd yn hoffi manylion am gynlluniau arbedion sy'n cynnwys canlyniadau anfwriadol yr arbedion a gynlluniwyd; mwy o wybodaeth ynghylch pam mae angen newid; a sut y gall y gwasanaeth ddod yn fwy effeithlon.

Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw'n bosib rhoi statws syml a chyffredinol i berfformiad y sefydliad cyfan. Hysbyswyd yr aelodau bod system Dangosyddion Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn darparu meincnodi, er y bydd hyn yn cael ei ddisdoli gan set newydd o ddangosyddion gwell yn 2018/19. O ran cynllunio arbedion, mae'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn rhan bwysig o wydnwch ariannol y Cyngor, ac wedi ei ostwng o 25% yn 2017/18, o £4 miliwn i £3 miliwn. Ni ddisgwylir i Gyfarwyddiaethau weld yr arian wrth gefn hwn fel sefyllfa wrth gefn, ac mae'r cynnydd tuag at gyflawni arbedion arfaethedig yn cael ei fonitro'n agos a'i herio trwy gydol y flwyddyn.

## Craffu Byr

***Lle mae'r Pwyllgor wedi archwilio gwaith manwl sydd ar y gweill i ymdrin â phroblem sylweddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, wedi rhoi sylwadau ar ganfyddiadau a chynlluniau gweithredu, gan roi cyfle i'r Cabinet wybod barn Aelodau Craffu wrth iddynt ymdrin â phroblem anodd. Yn 2017/18 roedd hyn yn cynnwys:***

- Absenoldeb Salwch *(Ion ’18)*

### Absenoldeb Salwch

Yn Ionawr 2018, atgyfnerthodd y Pwyllgor ei ddiddordeb hirdymor yn yr her sylweddol o ymdrin ag absenoldeb salwch gyda chyfle i gael archwiliad byr i ystyried canfyddiadau’r adolygiad gan APSE, a chynllun gweithredu amlinellol i ymdrin â'r canfyddiadau. Yn dilyn craffu, cytunodd yr Aelodau y bydd y

Pwyllgor yn parhau â'i waith a'i ddiddordeb mewn absenoldeb salwch, a bydd yn chwilio am dystiolaeth o arweinyddiaeth uwch reolwyr wrth iddo graffu ar gynnydd ar y cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2018.

Dilynodd y Pwyllgor ei graffu trwy gomisiynu ymchwil gymharol gyda GLL Leisure Services, i archwilio a oes gwersi y gellir eu rhannu a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau mewnol. Argymhellodd yr Aelodau y dylid cynnal grwpiau ffocws gyda staff rheng flaen i sicrhau eu llais yn y broses ymgynghori, ac ystyriwyd bod angen mwy o ddata ynghylch lefelau uchel o absenoldeb salwch o fewn grwpiau penodol, a'r diwylliant ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad a all effeithio ar hyn.

Sicrhawyd y Pwyllgor o gefnogaeth wrth weithio gydag ymchwil craffu, i rannu unrhyw ddysgu gyda'r Pwyllgor. Yn bwysig, mae arweinyddiaeth gref ar faterion salwch ar y gweill, ac mae APSE wedi bod yn gysylltiedig i ganfod a oes unrhyw resymau pam bod rhai grwpiau galwedigaethol yn dioddef o salwch uwch nag eraill a pha brosesau y gellir eu rhoi ar waith i gynorthwyo hyn.

## Briffio ar ôl y Cabinet

***Lle nad yw graddfeydd amser wedi caniatáu craffu cyn penderfynu neu ddatblygu polisi, ac i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau, cynigion neu gynnydd, yn 2017/18 roedd hyn yn cynnwys:***

- Strategaeth Gyllideb 2018/19 Tymor Canolig *(Medi ’17)*
- Monitro’r gyllideb ym mis 6 *(Rhag’17)*
- Rheoli Tir ac Eiddo Corfforaethol *(Ebrill’18)*

**Strategaeth Gyllideb 2018/19 Tymor Canolig**

Ym mis Medi 2017, bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2018/19 a chafodd ei gysuro gan ostyngiad yn y bwlch cyllideb a

ragwelwyd ers mis Chwefror 2017, o £27m i £23.5m, a byddid yn cynllunio ar gyfer dyfarniad cyflog o hyd at 2%. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad bod cyrraedd arbedion heb eu diwallu o £7m ar gyfer 2016/17 yn dal i fod yn darged; bod y Cabinet yn bwriadu atal ailadrodd targedau arbedion a gollwyd yn 2018/19 ac y byddai cyllidebau'n cael eu monitro'n agos, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n gorwario trwy gydol y flwyddyn, megis gwasanaethau cymdeithasol.

Cadarnhaodd ymateb y Cabinet fod arbedion heb eu diwallu o 2016/17 yn dal i fod yn darged yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a bod yr arbedion hynny'n cael eu monitro bob mis. Mae'r holl gynigion arbedion yn derbyn graddfa risg o ran cyflawnadwyedd, ac mae'r rhai a nodwyd fel risg uwch yn destun i her ychwanegol. Caiff cyllidebau eu monitro'n agos trwy gydol y flwyddyn ac mae cyfarwyddiaethau'n derbyn gwybodaeth fanwl am fonitro. Ar hyn o bryd roedd y Cyfarwyddiaethau sy'n adrodd am orwariant rhagamcanol yn gweithredu i ddatrys y materion a arweiniodd at y sefyllfa gyfredol neu fel arall, i nodi arbedion gwrthbwysol mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth.

**Monitro’r gyllideb ym mis 6**

Aeth y Pwyllgor ati i fonitro cyllideb 2017/18 ym mis 6, sef Rhagfyr 2017. Ei brif ffocws o bryder oedd y diffyg arbedion cyffredinol o £1.782miliwn, a oedd yn ymddangos yn gwaethygu. Roedd yr Aelodau'n ystyried y gallai'r sefyllfa hon fod o ganlyniad i gynigion arbedion afrealistig, a phryder p’un a yw'r gyllideb mewn gwirionedd yn adlewyrchu cost wirioneddol gwasanaethau fel Gwasanaethau Plant, neu a oes angen adlinio'r gyllideb yn sylweddol.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod amcanestyniad cyllideb gytbwys ym mis 6 wedi'i gyrraedd ar gost, yn enwedig o arbedion nas cyflawnwyd ac o ganlyniad i gamau rheoli o ran dal swyddi gwag staff.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cabinet fod adliniad gwerth £3.3 miliwn wedi'i gynnwys ar gyfer y Gwasanaethau Plant i adlewyrchu pwysau hysbys a

chynigion arbedion blwyddyn flaenorol heb eu cyflawni, gan ailddatgan unwaith eto y caiff yr asesiadau hynny eu hasesu'n fanwl ar y pwynt y cynigir hwy gyntaf. Cedwir statws risg a chynllunio dan adolygiad trwy gydol y broses gosod cyllideb ac adroddir arno o fewn Adroddiad y Gyllideb. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni lefelau sylweddol o arbedion, mae angen i'r Cyngor fynd ymlaen â lefel o risg rheoledig yn y cynigion.

**Rheoli Tir ac Eiddo Corfforaethol 2018/19**

Ym mis Ebrill 2018, rhoddwyd briff i'r Pwyllgor am y CLPMP ar gyfer 2018/19. Ystyriwyd bod y Cynllun yn realistig, roedd adeiladau craidd y Cyngor wedi dirywio'n sylweddol a chlywodd yr Aelodau y bydd yn cymryd tan 2020 i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw. Roedd cynlluniau tymor hwy i gynnal adolygiad o'r ystad swyddfa craidd, a byddai'r Pwyllgor yn cynnwys briffio cynnydd ar lety swyddfa craidd ar ei raglen waith.

Hysbyswyd y Pwyllgor am adolygiad helaeth o warediadau arfaethedig yn yr hydref. Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y gorau o'i adenillion ar warediadau, a bod targed CLPMP o £40m yn seiliedig ar werthu asedau ar gyfradd y farchnad.

Yn bwysig, croesawodd y Pwyllgor fwriad y Cabinet i ymgynghori ag aelodau ward ar warediadau arfaethedig, a gofynnodd am gyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Gwnaeth yr aelodau sylwadau cryf bod rhaid ymgynghori'n llawn a phriodol â'r gymuned lle mae’r eiddo sy'n gwasanaethu diben cymunedol yn cael ei nodi i'w waredu. Pan ystyrir bod eiddo'n briodol ar gyfer trosglwyddo asedau i'r gymuned, mae Aelodau'n teimlo bod achos dros gynnwys y gymuned i sicrhau cost effeithiolrwydd ac argaeledd eiddo.

## Craffu Gorchwyl a Gorffen

***Lle mae'r Pwyllgor o'r farn bod cyfle i archwilio'n fanwl y materion a'r opsiynau ehangach sydd ar gael, i gynorthwyo'r Cyngor i wella'r modd y darperir gwasanaeth. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys:***

- Arweinyddiaeth Cwsmer (*cyhoeddwyd Mai ‘18*)
- Rheoli’r Ystad dan y Model Landlord Corfforaethol (*cyhoeddwyd Ebrill ‘18*)

**Arweinyddiaeth Cwsmer**

---

Fel rhan o raglen waith 2017/18, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i ddull y Cyngor o ymdrin ag Arweinyddiaeth Cwsmer. Gosodwyd y dasg o ymchwilio i'r cyfleoedd i ymgorffori diwylliant ac Arweinyddiaeth Cwsmer ar draws y Cyngor trwy adolygu'r arferion gorau presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella Arweinyddiaeth Cwsmer.

Ystyriodd yr Aelodau farn arbenigwyr gwasanaeth cwsmer mewnol ac allanol megis Admiral, Dŵr Cymru a Nwy Prydain. Wedi'i gadeirio gan y Cynghorydd David Walker, daeth themâu clir i'r amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd: roedd y *Weledigaeth a'r Strategaeth* angen ymgorffori gwasanaeth cwsmer; roedd angen i'r *Arweinyddiaeth* lywio ffocws ar y cwsmer; sut mae *Pobl* yn ganolog i ymgorffori a chyflwyno ffocws ar y cwsmer; pwysigrwydd deall *Disgwyliadau’r Cwsmer*; a pha *Polisïau a Phrosesau* sydd angen eu rhoi ar waith i gefnogi ffocws arweinyddiaeth cwsmer.

Nododd y grŵp gorchwyl gyfleoedd i roi'r cwsmer wrth galon darparu gwasanaethau'r Cyngor, gan ei gwneud yn ofynnol codi proffil gwasanaeth cwsmer yn wleidyddol ac yn weithredol. Datblygwyd saith argymhelliad o ganfyddiadau allweddol yr ymchwiliad ar gyfer ystyriaeth y Cabinet, yn canolbwyntio ar gryfhau ffocws cwsmer cyfres o ddogfennau cynllunio strategol y Cyngor, trwy ddatblygu datganiad Gweledigaeth Cwsmer, Siarter Cwsmer a Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer newydd; Gwella dealltwriaeth y Cyngor o anghenion a disgwyliadau’r cwsmer trwy gynnwys y cwsmer mewn cynllunio busnes trwy ymchwil cwsmer; Hwyluso newid sylweddol mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gwasanaeth cwsmer ar draws yr holl rolau rheoli, gan roi mandad ac awdurdod llawn i'r Prif Swyddog Digidol i sicrhau cysondeb y safonau gwasanaeth cwsmer ar draws y cyngor; Datblygu diwylliant, atebolrwydd rheolwyr a hyfforddiant cwsmer ar bob lefel a fydd yn

annog cysondeb o ran rhagoriaeth mewn gwasanaethau; Sicrhau cyfleoedd i uwch reolwyr brofi diwylliant o ddull arweinyddiaeth cwsmer Admiral a Dŵr Cymru; a sicrhau aelodaeth o'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmer fel y corff proffesiynol a allai gefnogi'r daith datblygu gwasanaeth cwsmer.

**Rheoli'r Ystad dan y Model Landlord Corfforaethol**

Yn ystod y rhaglen waith, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ail ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i reoli ystad ddi-breswyl y Cyngor yn ganolog, o dan fodel Landlord Corfforaethol. Gofynnwyd i'r Tasglu: sefydlu'r rhesymau dros y dull hwn, graddfa'r buddion i'r Cyngor a thrigolion Caerdydd; ac i nodi heriau allweddol a oresgynwyd gan awdurdodau lleol eraill a oedd wedi cyflwyno'r model hwn.

Ym mis Tachwedd 2017, cyfarfu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen am y tro cyntaf. Dros y 6 mis canlynol, clywodd y Tasglu, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Joe Boyle, dystiolaeth gan arbenigwyr mewnol ac allanol ac arbenigwyr rheoli asedau, yr Aelod Cabinet a oedd yn gyfrifol am y newidiadau arfaethedig, meysydd gwasanaeth y Cyngor ac awdurdodau lleol eraill a oedd eisoes wedi gweithredu model Landlord Corfforaethol. Cymeradwywyd yr adroddiad terfynol gan y Pwyllgor ym Mai 2018, gyda thystiolaeth yn cael ei chyflwyno o dan 3 thema sy'n dod i'r amlwg: *sicrhau bod y corff yn cefnogi'r* model, y *polisïau a'r prosesau* sy'n gysylltiedig â gweithredu a *manteision gweithredu'r model yn llwyddiannus*.

Yr argymhellion ar gyfer ystyriaeth y Cabinet oedd: Cytuno ar ddatganiad clir o weledigaeth y Cyngor ar gyfer y model Landlord Corfforaethol i wrthwynebu dehongliadau gwrthdrawiadol; Sicrhau bod cyfrifoldeb gwleidyddol dros y Landlord Corfforaethol yn dod o fewn un portffolio Cabinet; Creu strwythur rheoli Landlord Corfforaethol canolog dan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol newydd (Landlord Corfforaethol); Cynhyrchu crynodeb gweithredol Landlord Corfforaethol bob blwyddyn fel rhan o'r broses gosod cyllideb; Adolygu ac adnewyddu yn ôl yr angen rolau a chyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli mewn

perthynas â materion eiddo; Sefydlu rhaglen cynnal a chadw ataliol ar gyfer holl asedau'r Cyngor; Sicrhau, yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Landlord Corfforaethol), bod Cytundebau Landlord a Meddiannaeth yn cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer holl eiddo'r Cyngor a'r telerau y cytunir arnynt gan bartïon perthnasol.

## Craffu Galw i mewn

***Lle mae'r Pwyllgor yn ystyried cais a wnaed gan Aelod anweithredol i adolygu penderfyniad diweddar y Cabinet ar bwnc penodol o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor, sydd ag oblygiadau i'r Cyngor a'r Ddinas. Yn 2017/18 roedd hyn yn cynnwys. Yn 2017/18, roedd hyn yn cynnwys:***

- Gwaredu tir Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi Heol Wedal, Cathays, Caerdydd. *(Ebrill '18)*

### Gwaredu tir Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi Heol Wedal

Ym mis Ebrill 2018, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried galw i mewn penderfyniad y Cabinet i waredu tir Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi Heol Wedal oddi ar y farchnad. Yn dilyn craffu, pleidleisiodd y Pwyllgor i gyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd fel y gwneuthurwr penderfyniad, i'w ystyried ymhellach. Wrth gyfeirio'r penderfyniad yn ôl, roedd yr Aelodau'n unfrydol bod swyddogion wedi dilyn y protocol priodol wrth wneud y penderfyniad hwn, fodd bynnag, roeddent yn annog adolygiad o'r protocol gwaredu fel mater o frys. Mae'r Pwyllgor yn deall pwysigrwydd cysylltiadau partneriaeth y sector cyhoeddus, ac yn gyffredinol mae'r Cyngor yn elwa o gysylltiadau da mewn modd cyfartal. Fodd bynnag, roedd yn ystyried, yn yr achos penodol hwn, y byddai marchnata ehangach i bartïon â diddordeb, megis cymdeithasau tai, wedi bod yn briodol. Felly daethpwyd i'r casgliad na ddylai'r tir yn Heol Wedal fod wedi cael ei dynnu oddi ar arwerthiant cyhoeddus, o ystyried yr angen pwysig i'r Cyngor ddarparu £40 miliwn o warediadau yn 2018/19. Opsiwn arall i wneud y mwyaf o incwm i'r Cyngor fyddai mynd â'r eiddo i arwerthiant cyhoeddus gyda phris wrth gefn uwch.

Yn ogystal, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Llywodraethu gan fynegi ei farn y dylai'r gwneuthurwr penderfyniad gael yr awdurdod i ofyn am fwy nag un prisiad annibynnol, yn enwedig pan fo'r ased yn sylweddol neu lle bu her wleidyddol a phryder cymunedol. Barn y Pwyllgor oedd efallai y bydd angen ailystyried y cyfyngiad hwn, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael ei gefnogi yn ei angen i wneud y mwyaf o incwm o warediadau.

Ar ôl hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd ei fod o'r farn bod y broses yn addas i'r pwrpas ac nad oes angen ei newid, gan gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr adroddiad prisio a ddarparwyd ar gyfer gwaredu safle Heol Wedal yn gadarn, ond o ystyried y diddordeb gwleidyddol yn y gwaredu, roedd yn bwriadu cyfeirio'r penderfyniad i'r Cabinet.

## Cyfleoedd Rhaglennu Gwaith yn y Dyfodol 2018/19

Mae nifer o eitemau y bydd angen eu cario drosodd ac ailymweld â hwy yn dilyn gwaith eleni. Mae'r pynciau a gymeradwywyd i Bwyllgor 2018/19 i'w hystyried yn ei gynlluniau gwaith yn cynnwys:

- **Craffu partneriaeth o'r BGC** - mae'r Pwyllgor yn parhau i berfformio craffu trosolwg strategol ar berfformiad y BGC wrth symud ymlaen, yn enwedig yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd ar Gynllun Llesiant y Bwrdd. Yn ogystal, mae'r Cadeirydd o'r farn bod mynychu'r BGC yn unol â'r gwahoddiad yn sefydlu llinellau cadarn o atebolrwydd agored, ac o fudd i'r ddwy ochr.
- **Trefniadau llywodraethu BGC** - mae'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar drefniadau llywodraethu'r BGC ym mis Mehefin 2018.
- **Strategaeth y Gweithlu** – gofynnodd y Pwyllgor am weld y cynlluniau gweithredu a fydd yn eistedd o dan y Strategaeth Gweithlu, ac mae wedi penderfynu monitro'r hyn a gyflawnwyd chwe mis ar ôl ei weithredu.
- **Rhaglen Iechyd a Llesiant Gweithwyr**– mae'r Pwyllgor yn bwriadu craffu'n fanwl ar y rhaglen Iechyd a Llesiant Gweithwyr, yn enwedig sut mae'r rhaglen iechyd galwedigaethol wedi bod yn perfformio i'r Cyngor yn 2018.
- **Craffu Perfformiad** – mae'r Cadeirydd i drafod gyda'r Aelod Cabinet sut y gallai'r Grŵp Perfformiad a Chyflenwi newydd weithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol. Sylwer y bydd Tîm Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn hapus iawn i gefnogi Panel Perfformiad y Pwyllgor. Mae'r Aelod Cabinet yn ystyried y bydd hyn yn darparu ffordd gynhyrchiol iawn i ddatblygu ymhellach ymwneud y Pwyllgor â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a'r agenda, fel rhanddeiliad allweddol yn ei ddatblygiad a'i weithredu. Yn ogystal, bydd craffu rhaglen ar Chwarter 4 a gwybodaeth perfformiad diwedd blwyddyn yn cael ei wneud gan y pwyllgor llawn ym mis Mehefin 2018.

- **Absenoldeb Salwch** - parhau â gwaith a diddordeb y Pwyllgor mewn absenoldeb salwch. Ystyired cynnwys y cynllun gweithredu sydd yn ei le, a blaenoriaethu monitro'r Cynllun ym mis Gorffennaf 2018.
- **Ystad Swyddfa Graidd** – symud ymlaen briffio a chraffu ar gynlluniau tymor hir y Cabinet i gynnal adolygiad o'r ystad swyddfa graidd, gan gynnwys Neuadd y Ddinas.
- **Gwaredu eiddo arfaethedig** – bwriedir cael adolygiad helaeth o warediadau arfaethedig yn yr hydref, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld y cynigion a chyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

## CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

- Craffu ar, monitro ac adolygu gweithrediad cyffredinol rhaglen Caerdydd ar gyfer gwella ac effeithiolrwydd gweithredu cyffredinol y polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor.

- Craffu ar, monitro ac adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli ariannol a gweinyddiaeth y Cyngor a'r defnydd o adnoddau dynol.

- Asesu effaith partneriaethau gyda, a'r adnoddau a gwasanaethau a ddarperir gan, sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff anllywodraethol lled-adrannol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor.

- Adrodd wrth gyfarfod y Cabinet neu'r cyngor priodol ar ei ganfyddiadau a gwneud argymhellion ar y mesurau a allai wella perfformiad y Cyngor yn y maes hwn.

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd
Yst. 263d, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
Ffôn: 02920 873017 E-bost: barnargraffu@caerdydd.gov.uk
© 2017 Cyngor Dinas a Sir Caerdydd